

<b>Teitl:</b> <b>Title:</b>	Polisi Gwella Addysg Uwch
<b>Dyddiad Cyhoeddi:</b> <b>Issue Date:</b>	<i>Chwefror 2018</i>

Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

<b>Cyfrifoldeb:</b> <b>Responsibility:</b>	<i>Pennaeth Cynorthwyol a Chyfarwyddwr Cwricwlwm Addysg Uwch, Ansawdd a Sgiliau Hanfodol</i>
<b>Corff Cymeradwyo:</b> <b>Approval body:</b>	<i>Y Tîm Uwch Reoli</i>
<b>Dyddiad Cymeradwyo:</b> <b>Approval date:</b>	<i>7 Mawrth 2018</i>
<b>Amllder Adolygu:</b> <b>Review Frequency:</b>	<i>Bob blwyddyn</i>
<b>Dyddiad Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb:</b> <b>Equality Impact Assessment Date:</b>	<i>23 Chwefror 2018</i>
<b>Dyddiad y Daw i Ben:</b> <b>Expiry Date:</b>	<i>31 Awst 2021</i>

Cwmpas / Scope

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl fyfyrwyr a staff sy'n darparu a / neu sy'n cynorthwyo â'n rhaglenni Addysg Uwch.

*I'w bennu gan y Rheolwr Gweinyddol a Gwasanaethau Cwsmeriaid /  
/ To be assigned by the Admin & Customer Service Manager*

<b>Cyfeirnod:</b> <b>Reference:</b>	<i>Ceir ei bennu wedi cymeradwyo'r ddogfen This will be assigned to the document on approval</i>
<b>Fersiwn:</b> <b>Version:</b>	
<b>Dosbarthiad:</b> <b>Classification:</b>	<i>Dogfen Arferol Normal</i>



Polisi Gwella

Addysg Uwch

## **Pwrpas**

Mae'r Polisi Gwella Darpariaeth Addysg Uwch hwn yn nodi dull strategol Coleg Cambria i wella ansawdd profiad a chyfleoedd dysgu ei fyfyrwyr sydd ar raglenni addysg uwch. Wrth wneud hynny, mae'n cefnogi nod strategol y coleg o "gael darpariaeth cwricwlwm AU cadarn a sylweddol, a bod yn ddarparwr o ddewis ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig ag addysg uwch yn y rhanbarth".

## **Cwmpas**

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl fyfyrwyr a'r staff sy'n darparu rhaglenni Addysgu Uwch a/neu sy'n cynorthwyo gydag hwy. Mae'r polisi cael ei oruchwylio gan y Grŵp Llywio Addysg Uwch. Bydd y Grŵp Llywio Addysg Uwch yn adolygu'r polisi a'i brosesau bob blwyddyn i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'w pwrpas.

## **Dogfennau Cysylltiedig**

Mae'r dogfennau canlynol yn sail i'r polisi hwn:

1. **Strategaeth Addysgu a Dysgu** a ddiweddarwyd Mehefin 2016 – i'w ddisodli gan y **Polisi Datblygu Addysgu a Dysgu ac Arferion Proffesiynol** sy'n nodi dull y coleg o wella arferion addysgu a dysgu trwy ddatblygiad proffesiynol.
2. **Cylch Ansawdd a Gwella Addysg Uwch** sy'n disgrifio prosesau adolygu parhaus a chynllunio gwelliannau, yn ogystal â'r rhan mae'r myfyrwyr yn ei chwarae yn y broses gwella.


Yn y ddwy ddogfen y cyfeiriwyd atynt uchod, mae Coleg Cambria yn diffinio ei brosesau ar gyfer adolygu a gwella ei ddarpariaeth cyfleoedd dysgu ac arferion addysgu yn systematig. Mae'r prosesau hyn yn dangos sut y cymerir camau bwriadol ar lefel y coleg i sicrhau bod ein cyfleoedd dysgu yn cael eu gwella'n barhaus ar gyfer ein myfyrwyr presennol a'n darpar fyfyrwyr.

## **Egwyddorion**

Mae'r polisi hwn wedi'i seilio ar yr egwyddorion canlynol:

- Caiff prosesau gwella eu llunio a'u monitro strategol a'u gweithredu'n systematig ym mhob maes darpariaeth addysg uwch.
- Y dylai pawb sydd ynghlwm ag addysgu a/neu'n cynorthwyo gyda dysgu gymryd rhan mewn gwella ansawdd a'i sicrhau.
- Bod y gweithdrefnau gwerthuso yn gynhwysfawr ac yn seiliedig ar wybodaeth berthnasol a chadarn.
- Bod y myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill yn rhan ystyrion o bob agwedd ar y broses wella.

## Trosolwg o'r Broses Gwella



Amlinellir y prosesau manwl ar gyfer gwella yn y *Cylch Ansawdd a Chyfoethogi Addysg Uwch*. Ceir manylion ychwanegol a chryno sut i wella arferion addysgu yn y *Strategaeth Addysgu a Dysgu* a ddiweddarwyd ym mis Mehefin 2016 (i'w ddisodli gan y *Polisi Addysgu a Datblygu ac Arfer Proffesiynol* ym mis Ebrill 2018).